

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Simulity Labs Limited

Mae Simulity Labs Limited yn darparu datrysiadau Cerdyn Clyfar i'r diwylliant telathrebu di-wifr ar bob cyfandir, marchnad fyd-eang sy'n werth £4biliwn.

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Cafodd Simulity ei lansio i fanteisio ar y galw cynyddol am ddatrysiadau cerdyn clyfar yn y sectorau telathrebu, talu a diogelwch a ddefnyddir gan gwsmeriaid ledled y byd ac mae'r cwmni yn darparu datrysiadau a chymwysiadau pwrpasol i'w cwsmeriaid er mwyn diwallu eu hanghenion hwy ac anghenion eu cwsmeriaid.

Sefydlwyd Simulity ym Mangor yn 2009 gan bartneriaeth buddsoddi Ffrengig-Gwyddelig a gafodd ei denu'n arbennig i'r cymorth oedd ar gael yng Nghymru. Cychwynnodd y cwmni ar gyfnod dwy flynedd o Ymchwil a Datblygu gyda chymorth Gwasanaeth Arloesi Busnes Llywodraeth Cymru.

Drwy gyfrwng cyllid gan SMART Cymru a phartneriaeth barhaus ag adran gyfrifiadureg Prifysgol Bangor – a drefnwyd fel rhan o'r cytundeb cyllid – llwyddodd Simulity i recriwtio a hyfforddi aelodau o staff graddedig o'r dechrau'n deg, a rhoi ei gynhyrchion cyntaf ar y farchnad.

Bellach, mae gan Simulity drosiant blynyddol o £2.5miliwn a chwsmeriaid allweddol ar bob cyfandir, ac mae'n cyflogi tîm o 11 o gyflogeion sydd â sgiliau meddalwedd a rhaglennu wedi'u datblygu'n arbennig i ddiwallu ei anghenion busnes.

Mae disgwyl i gynlluniau sy'n cynnig arlwy arloesol newydd i gwsmeriaid presennol roi hwb i drosiant blynyddol Simulity hefyd, a chynyddu nifer y staff y mae'r cwmni yn eu cyflogi i 20 yn ystod y 12 mis nesaf.

Meddai'r Cyd-Sylfaenydd Stephen Halpenny: "Mae ein tîm cyfan wedi magu llawer o brofiad ac wedi dysgu llawer yn ystod yr 20 mlynedd a mwy o weithio yn y Diwylliant Telathrebu Di-wifr ac rydym wedi gallu dangos eu gallu mewn modd annibynnol, diolch i'r cymorth a gawsom gan Lywodraeth Cymru. Mae SMART Cymru wedi ein cefnogi wrth i ni greu busnes newydd ar gyfer Bangor a darparu cyfleoedd gwerthfawr am swyddi i raddedigion meddalwedd yn yr ardal yn sgil hynny hefyd."

Busnes Cymru
Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk

**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk

**Ffôn:** 03000 6 03000



WG17397 / © Hawlfraint y Goron 2014